CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor
Llawr y Llan
Lôn Goch
Amlwch
Ynys Môn LL68 9EN

Ffôn/Tel: 01407 832228
Ffacs/Fax: 01407 839041
E-bost/E-mail: marilynhughes@amlwchcf.org

Ebrill 1af 2015

ADRAN PRIF WEITHREDWR
13 APR
CHIEF EXECUTIVE'S DEPT

Mr. Richard Parry Jones
Ysgrifennydd Ymddiriedolaeth Elusennol
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni

Annwyl Mr. Jones

**PAR: SAFLE RHOSGOCH**

Yn dilyn cyfarfod yn ddiweddar gyda Chynghorau Cymuned/Tref:Amlwch/Rhosybol/Llaneilian/Llanbadrig a Llanfechell rwyn ysgrifennu atoch yn rhinwedd eich swydd o Ysgrifennydd yr Elusen.

Yr ydym yn bryderus fod penderfyniad wedi ei wneud i werthu'r safle ac mae'r Cynghorau yn unfrydol gytun i ofyn i chi ohirio unrhyw benderfyniad ynghlwm a'r gwerthiant am gyfnod o naw mis er mwyn edrych yn ddwys ar opsiynnau posib. Gofynwn arnoch i gynnwys y mater ar agenda'r cyfarfod nesaf o'r Elusen. Mae angen ystyried yn ddwys beth sydd yn bwysig i Fôn i'r dyfodol, ar ddiwedd y dydd,sefydlwyd yr Elusen er lles pobl Môn.

Mae llawer iawn o botensial ar y safle gyda chyfle i greu gwaith sydd yn flaenoriaeth yn yr ardal yma. Y *teimlad yw* pe tai'r Ymddiriedolaeth yn fodlon i gyd-weithio mewn partneriaeth gyda cwmniau fel Horizon neu unrhyw gwmni arall. Un syniad cryf yn y drafodaeth oedd creu cartrefi i weithwyr tra byddent yn adeiladu Wylfa Newydd. Pwyntiau a godwyd oedd pe tai'r Ymddiredolaeth yn gwerthu'r safle am 2/3 miliwn, roeddynt yn teimlo fod angen edrych ar gwerth y safle dros ddeg i ugain mlynedd a hefyd pwynt pwysig oedd creu gwaith i bobl leol dros yr ugain mlynedd nesaf yn hytrach nag elw sydyn. Pwynt arall a godwyd oedd posibilrwydd creu adnoddau hamdden allanol i.e. llynoedd a.y.y.b yn y gwersyll. Pan ddaw yr adeiladu i ben fod y safle yn cael ei drosglwyddo yn ôl i'r Ymddiriedolaeth i gael ei redeg er budd i dwristiaeth ynghyd a phobl lleol neu gwerthu'r safle gyda'r adnoddau.

Yr ydym wedi sefydlu fforwm o  Gynghorau Cymuned lleol ac mae pob un o'r Cymunedau uchod yn unfrydol eu barn i ofyn am i chi ohirio unrhyw benderfyniad ynghlwm a'r gwerthiant.

Edrychwn ymlaen i dderbyn eich ymateb.

Yr eiddoch yn gywir,

M. Hughes

M.Hughes – Mrs
Clerc y Dref